

DECHRAU WRTH FY NHRAED

SUT MAE'R GYMUNED LEOL YN CYDWEITHIO AG YSGOLION AC YN CYSYLLTU A CHEFNOGI ADDYSGU?

- Mae ysgolion Cymru yn rhoi eu hadroddiadau estyn fwyaf diweddar ar eu gwefannau er mwyn darparu'r wybodaeth ystadegol ddiweddaraf am yr ysgol.
- Yng Nghymru, mae yna nifer o grwpiau a chlybiau i blant yn yr ysgol sydd yn hybu datblygiad plant cyn dechrau yn yr ysgol er enghraifft, y mudiad meithrin a Ti a Fi.
- Mae'r ysgol bontio yn caniatáu ymweliad disgyblion y meithrin i flwyddyn 6.
- Mae'r ysgol bontio yn gwahodd ymwelwyr o'r gymuned leol i mewn i'r ysgol i siarad gyda'r disgyblion er enghraifft nyrs, deintydd a dynion tan.
- Mae disgyblion yr ysgol bontio yn cymryd rhan yng ngweithgareddau yn yr Eglwys megis gwasanaethau cynhaeaf, gwasanaethau Nadolig a'r noson garolau.
- Mae nifer fawr o ysgolion yn defnyddio'r gymuned leol ar gyfer wahanol feysydd dysgu megis tripiâu i gestyll ar gyfer y dyniaethau neu drip i weld sioe gerdd i blant yn y theatr sydd yn cysylltu gyda'r celfyddydau mynegiannol
- Mae cymuned ysgol yr ysgol bontio yn cefnoi disgyblion yr ysgol trwy ddod i wylio sioeau ac eisteddfoau yr ysgol

PERTHYNAS GYDA RHINIEN CYN DECHRAU'R YSGOL:

- Mae nifer o ysgolion yn rhoi'r siawns i rieni ymweld â'r ysgol cyn i'w plant dechrau yn yr ysgol.
- Mae'r ysgol bontio yn cynnig cyfarfod croesawi yn ogystal â chyfarfod i drafod sut mae'r plant yn ymgartrefi ar ôl dechrau yn yr ysgol.
- Mae nifer o grwpiau yn y gymuned ar gael sydd yn gweithio'n agos gydag ysgolion cynradd er mwyn gallu darparu'r wybodaeth fwyaf pwysig i rieni sydd yn paratoi eu plentyn ar gyfer yr ysgol gynradd.
- Mae rhieni yn gallu gweld beth sydd yn digwydd yn yr ysgol trwy drydar.

PERTHYNAS GYDA RHINIEN A DYSGWYR YN YR YSGOL:

- Mae'r ysgol bontio yn cynnal nifer o nosweithiau ar gyfer rhieni sydd â phlant yn yr ysgol:
 - noson agored
 - noson targedau
 - noson rhieni
- Mae'r ysgol bontio hefyd yn danfon llyfrau adref pob hanner tymor er mwyn i rieni gweld sut mae eu plant yn datblygu yn yr ysgol
- Ysgolion yn cysylltu â rhieni trwy gylchlythyron, adroddiadau.
- Mae'r ysgol bontio yn defnyddio ap o'r enw 'weduc' i gysylltu â rhieni yn ogystal â thrydar.
- Yr ysgol yn danfon ebost gyda'r adroddiad estyn er mwyn sicrhua bod rhieni yn ymwybodol o ystadegau'r ysgol

SUT MAE'R YSGOL YN DARPARU GWYBODAETH I RIENI A GOFALWYR

- Mae'r ysgol yn darparu llyfrau cyswllt i bob plentyn yn yr ysgol er mwyn cadw cofnod o ddatblygiad y disgyblion.
- Cyflwyno cylchlythyr wythnosol i'r gymuned leol er mwyn darparu gwybodaeth am beth mae'r disgyblion wedi bod yn gwneud dros yr wythnos.
- Trefnu cyfarfodydd rieni a llywodraethwyr
- Cyflwyno clebran cŵl sef cylchgrawn yr ysgol bontio
- Rhoi 'post' a'r trydar neu 'Facebook' gan sicrhau bod rhieni wedi rhoi caniatâd.
- Rhoi gwybodaeth ar wefan yr ysgol
- Danfon llythyron a thaliadau ar apiau megis 'weduc' a 'ParentMail' er mwyn gwneud cysylltu â rhieni a gofalcwyr yn haws.
- Mae'r ysgol yn cynnal nifer o nosweithiau rhieni sydd yn galluogi rhieni i ddod mewn i weld gwaith eu plant ac i glywed sut y maen nhw'n cymdeithasu a gweithio yn yr ysgol
- Mae athrawon yr ysgol yn rhoi adoborth i rieni plant sydd yn gweld hi'n anodd yn yr ysgol ar ddiwedd y dydd fel eu bod nhw'n ymwybodol o ddatblygiad eu plant.

SUT MAE'R YSGOL YN CEFNOGI DYSGWYR ADY A'I RHINIEN?

- Ysgolion yn gwneud addasiadau er mwyn helpu plant cyrraedd eu potensial llawn.
- Ysgolion yn creu partneriaeth gref gyda rhieni er mwyn cefnogi'r disgyblion
- Ysgolion yn asesu disgyblion ADY ar ddechrau pob blwyddyn ysgol er mwyn sicrhau bod rhieni yn ymwybodol o gynnydd eu plant.
- Rhoi cymorth ychwanegol i blant ag ADY wrth athrawes neu gynorthwyydd dosbarth.
- Rhoi cymorth i ddisgyblion wrth iddynt gyfathrebu ag eraill.
- Cred nifer o ysgolion mae'r rhiant sydd yn gwneud y penderfyniadau dros y plentyn ac felly o ganlyniad i hyn, trwy sefydlu perthynas glos gyda'r rhiant, mae'r ysgol yn rhoi'r gofal gorau posibl i'r plentyn er mwyn hybu ei datblygiad ar gyfer y dyfodol.
- Defnyddia nifer y syniad o 'it takes a village' er mwyn amlygu'r ffaith bod angen ar blant system cymorth yn enwedig os oes ganddynt ADY ac felly mae nifer fawr o ysgolion yn gweithio tuag at hyn gyda rhieni er mwyn darparu'r cymorth gorau posibl.
- Mae'r ysgol yn sicrhau bod yna athro ar gael sydd yn arbenigo yn ADY yn ogystal ag adnoddau megis 'clustffonau' ar gael

DIWYLLIANT, IAITH A CHYD-DESTUN ECONOMIADD-GYMDEITHASOL YR YSGOL BONTIO

- Mae'r ysgol bontio yn darparu cinio ysgol am ddim i 7% o'i disgyblion. Nifer llawer yn is na'r canran cenedlaethol sef 18%.
- Dim ond 10% o ddisgyblion yr ysgol bontio sydd yn dod o gartrefi Cymraeg.
- Mae 22% o ddisgyblion yr ysgol yn ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Nifer tebyg iawn i'r canran cenedlaethol sef 21%
- Dim ond ychydig iawn o blant sydd yn dod o gefndiroedd ethnig sydd yn mynychu'r ysgol benodol hon.
- Mae'r ysgol yn ceisio cyflwyno cyfiawnder cymdeithasol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw stereoteipiau penodol yn yr ysgol
- Mae'r ysgol hefyd yn ceisio sicrhau fod pob plentyn yn cael yr un cyfleoedd beth bynnag yw eu cyd-destun teuluol trwy ddysgu disgyblion am wahanol grefyddau a'r sawl gwahanol ethnigrwydd.
- Mae'r ysgol hon hefyd yn sicrhau nad yw unrhywbeth mae'r disgyblion yn gwneud yn mynd yn erbyn rheolau eu crefydd.
- Mae gan yr ysgol polisiau mewn lle sydd yn sicrhau bod pob plentyn yn cael siawns cyfartal